Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Achieving More Together / Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

Adroddiad Blynyddol 2017-2018

RHAGAIR

Fel cadeiryddion Grŵp Cynghori'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a'r Bwrdd Llywodraethu yn ôl eu trefn, rydym yn hynod falch o'r cyfle i gyfleu'r rhagair hwn.

Phil Hodgson
Cadeirydd y Grŵp Cynghori

Y Cyng. Geraint Hopkins
Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethu

Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol 2017 cafodd y GMC gadeirydd newydd ar gyfer y Bwrdd Llywodraethu yn ogystal â chynghorwyr newydd i gynrychioli pob un o bum rhanbarth y gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol. Mae hyn, ochr yn ochr â chysondeb y Cadeirydd Annibynnol ac aelodaeth y Grŵp Cynghori, wedi creu partneriaeth ardderchog ac adnewyddedig yn stiwardiaeth broffesiynol a gwleidyddol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru.

Mae bron i bedair blynedd ers i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gael ei lansio ym mis Tachwedd 2014 ac ers hynny rydym wedi gweld cynnydd a gwelliant o ran diwallu anghenion plant, pobl ifanc a mabwysiadwyr. Mae'r adroddiad hwn yn dangos yr hyn a wnaed i ymestyn hynny yn ystod 2017/18 ac mae'n adlewyrchu'r gwaith caled a'r cyfraniad a wnaed gan fabwysiadwyr, plant a phobl ifanc a gafodd eu mabwysiadu, yn ogystal â staff proffesiynol ledled Cymru.

Gallwn weld perfformiad yn gwella mewn nifer o feysydd yn ogystal â mentrau pwysig fel y Fframwaith Gwaith Taith Bywyd, Hyrwyddwyr Mabwysiadu'r GMC a'r cynllun Mabwysiadu Gyda'n Gilydd sy'n dangos llawer o addewid o ran parhau a hyn yn y dyfodol.

Roeddem yn falch iawn eleni i gael gwahoddiad i ysgrifennu erthygl ar gyfer 'Adoption & Fostering' y cylchgrawn chwarterol sydd bellach yn cael ei gyhoeddi gan Academi Maethu a Maethu Coram Baaf. Mawr yw ein diolch i Dr Alyson Rees o Brifysgol Caerdydd am ei chefnogaeth a'i her wrth iddi gyd-ysgrifennu gyda Phil. Rhoddodd hyn gyfle pwysig i ni "oedi a myfyrio" i ystyried ble yn union yr oeddem. Ategwyd at hyn ym mis Chwefror eleni gan weithdy Grŵp Cynghori lle dechreuom feddwl am yr hyn yr ydym eisiau bod, ac yn benodol, sut yr ydym yn symud tuag at ddatblygu gwasanaethau mabwysiadu cyfoes a blaengar i Gymru.

Nid yw hyn heb ei heriau, y mae rhai ohonynt hefyd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad, ond rydym yn sylweddoli mai, yn rhannol, ein rôl ni yw herio ein hunain, y rhai sy'n darparu gwasanaethau mabwysiadu ac adnoddau yng Nghymru yn ogystal â llunwyr polisi'r llywodraeth.

Mae mabwysiadu yn cynnig goblygiadau gydol oes i bawb y mae'n ei gyffwrdd; mae cydnabod hyn yn darparu 'meddylfryd' newydd i wasanaethau a heriau gwahanol o ran sut yr ydym yn denu darpar fabwysiadwyr, lleoli plant a darparu cymorth mabwysiadu yn y dyfodol. Mae hefyd yn herio'r cyd-destun cyfreithiol, polisïau, adnoddau ac ymarfer.

Fodd bynnag, mae hyn yn llywio'r gwaith yr ydym wedi bod yn ei wneud a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol o ran yr angen am wasanaethau recriwtio a chymorth mabwysiadu deinamig a hyblyg. Mae'r angen i newid ein ffordd o wneud hyn yng Nghymru yn parhau i fod yn arwyddocaol a bydd yn parhau i fod yn ffocws y sylw yn ystod y deuddeg mis nesaf.

CYFLWYNIAD

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru yn cydweithredu i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru.

Ers mis Tachwedd 2014, mae wedi dwyn ynghyd holl wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol i bum grŵp cydweithredu ranbarthol, gyda thîm canolog bach a Chyfarwyddwr Gweithrediadau yn cydlynu a darparu arweiniad. Mae asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol sy'n gweithredu yng Nghymru yn bartneriaid pwysig yn y grŵp cydweithredol, yn yr un modd ag y mae asiantaethau eraill fel iechyd ac addysg.

TÎM CANOLOG

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol – Tîm Canolog
c/o Cyngor Dinas Caerdydd,
Ystafell 409, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd, CF10 4UW
029 2087 3927
contact@adoptcymru.com
www.adoptcymru.com/cy/home

GOGLEDD CYMRU

Ynys Môn, Gwynedd, Conwy,
Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru
3ydd Llawr, Stryd Lambpit,
Wrecsam, LL11 1AR
01978 295311
adoption@wrexham.gov.uk
www.northwalesadoption.gov.uk/cy

CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Ceredigion, Powys, Sir Gaerfyrddin,
Sir Benfro

Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru
Adeilad 1, Parc Dewi Sant, Tre Ioan,
Sir Gaerfyrddin, SA31 3HB
01267 246970
adoptionenquires@carmarthenshire.gov.uk
www.mabwysiaducgcymru.org.uk

Neuadd Brycheiniog, Ffordd Cambrian,
Aberhonddu, Powys, LD3 7HR
01597 827666
adoptionenquiries@carmarthenshire.gov.uk
www.mabwysiaducgcymru.org.uk

BAE'R GORLLEWIN

Abertawe, Castell-nedd Port Talbot,
Pen-y-bont ar Ogwr

Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin
Canolfan Ddinesig Port Talbot,
Port Talbot CF131PJ
0300 365 2222
enquires@westernbayadoption.org
www.westernbayadoption.org

Y FRO, Y CYMOEDD A CHAERDYDD

Merthyr Tydfil, Rhondda Cynon Taf,
Cardiff, Vale of Glamorgan

Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd
Lefel 7, Tŷ Pennant, Stryd Catherine,
Pontypridd, CF37 2TB
0800 0234 064
adoption@valeofglamorgan.gov.uk
www.adopt4vvc.org

DE DDWYRAIN CYMRU

Sir Fynwy, Blaenau Gwent,
Torfaen, Caerffili, Casnewydd

Gwasanaeth Mabwysiadu Deddwyrain Cymru
Adain y Gogledd, 2il Lawr Bloc B,
Tŷ Mamhilad, Stad Parc Mamhilad,
Pont-y-pŵl, Torfaen, NP40HZ
01495 355766
adoption@blaenau-gwent.gov.uk
www.blaenau-gwent.gov.uk/3122.asp

POB GWIRFODDOL CYMRU WASANAETHAU ASIANTAETHAU MABWYSIADU



adoptionuk
ar gyfer pob teulu sy'n mabwysiadu
for every adoptive family

Adoption UK
Stiwdios Penhaved, Penhaved Street,
Grangetown, Caerdydd, CF117LU
029 2023 0319
www.adoptionuk.org

AFA CYMRU
association for fostering and adoption

AFA Cymru
28 Plas-y-parc, Caerdydd, CF10 3BA
029 2066 7007
Info-afa@stdavidscs.org
www.afacymru.org

after adoption

After Adoption
Stiwdios Penhaved, Penhaved Street,
Grangetown, Caerdydd, CF117LU
029 2066 6597
information@afteradoption.org.uk
www.afteradoption.org.uk

Credwch mewn plant
Believe in children
Barnardo's Cymru

Barnardo's Cymru
Cwrt Trident, East Moors Road,
Caerdydd, CF245TD
0800 0546 788
cymruadoptionandfosteringservice@barnardos.org.uk
www.barnardos.org.uk/adoption

St David's Children Society
Cymdeithas Plant Dewi Sant

Cymdeithas Plant Dewi Sant
28 Plas-y-parc, Caerdydd, CF10 3BA
029 2066 7007
info@stdavidscs.org
www.adoptionwales.org

I blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru na allant aros gyda'u teulu biolegol, a chartref mabwysiadol yw'r cynllun y cytunwyd arno ar eu cyfer, mae gwasanaethau mabwysiadu yn chwarae rhan bwysig i sicrhau teulu parhaol.

Yn ystod y flwyddyn fusnes 2017/18:

- cafodd dros 300 o blant eu lleoli yn eu cartref mabwysiadol newydd;
- cymeradwywyd gorchmynion mabwysiadu ar gyfer tua 300 o blant[1];
- roedd 350 o blant a oedd wedi derbyn caniatâd cyfreithiol i'w mabwysiadu, yn aros i ddod o hyd i deulu addas neu gael eu lleoli gyda'u teulu newydd ar ddiwedd y flwyddyn.

Gweithiodd y gwasanaeth gyda thua 16% o'r plant a oedd yn derbyn gofal yng Nghymru y llynedd, ffigur tebyg i'r flwyddyn flaenorol. Yn ôl data Llywodraeth Cymru, ar gyfartaledd, dros yr wyth mlynedd ddiwethaf, mabwysiadwyd 13% o'r holl blant y rhoddwyd y gorau i'w maethu.

Mae'r asiantaethau mabwysiadu sy'n ffurfio Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru yn darparu ystod o wasanaethau i gefnogi'r plant hyn a'u teuluoedd, yn ogystal ag eraill y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt. Yn ogystal â gweithio gyda'r plant uchod, mae gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru hefyd wedi:

- cynorthwyo dros 500 o blant drwy wasanaethau cymorth mabwysiadu;
- hwyluso dros 3,370 o drefniadau cysywllt blwch llythyrau gweithredol;
- darparu gwasanaeth i dros 320 o rieni biolegol;
- derbyn dros 200 o geisiadau am fynediad i gofnodion geni a dros 150 am gymorth i feithrin cyswllt â theulu biolegol;
- derbyn dros 60 o geisiadau am gymorth gan frodyr a chwiorydd biolegol a perthnasau eraill.

[1] Cesglir y data hwn gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei gyhoeddi nes ymlaen yn 2018

CYMORTH MABWYSIADU

Ers y ffurfiwyd GMC, rydym wedi gwneud gwelliannau i'r gwasanaethau cymorth mabwysiadu yr ydym yn eu darparu, ac ar hyn o bryd rydym yn gweithredu ein Fframwaith ar gyfer Cymorth Mabwysiadu.

Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod y gall pob plentyn sy'n cael ei fabwysiadu, a'u rhieni fod eisiau neu angen cymorth ar ryw adeg, a bod angen i hyn fod yn hygyrch ac ar gael o fewn gwasanaethau 'mabwysiadu'. Mae hefyd yn cydnabod y dylem arfogi'r teuluoedd sy'n mabwysiadu yn well yn ystod y dyddiau cynnar, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth, cyngor neu gymorth effeithiol pryd bynnag y bydd ei angen arnynt. Mae'r newidiadau hyn yn rhan o'r camau i gydnabod bod gan fabwysiadu 'oblygiadau gydol oes' i blant, eu rhieni mabwysiadol, ac eraill y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt- yn enwedig rhieni biolegol a phobl sy'n cael eu mabwysiadu.

O'r nifer o newidiadau positif sy'n cael eu gwneud, rydym yn arbennig o falch o effaith ein gwaith ar deithiau bywyd i blant a theuluoedd. Bellach mae hyn yn ei le i 62% o blant erbyn eu hail adolygiad mabwysiadu.

Mae'r holl ranbarthau wedi dangos gwelliant pellach eleni, gyda Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn perfformio'n dda yn gyson.

Canran y plant ar eu hail adolygiad mabwysiadu sydd â deunyddiau Taith Bywyd yn eu lle



	2015-16	2016-17	2017-18
Canolbarth a Gorllewin Cymru	92%	79%	92%
Gogledd Cymru	44%	25%	46%
De Ddwyrain Cymru	45%	43%	60%
Y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd	30%	61%	68%
Bae'r Gorllewin	55%	30%	58%
CYMRU	49%	45%	62%



Unwaith eto eleni, cafodd bron i bob plentyn asesiad o'i angen am wasanaethau cymorth mabwysiadu, ac roedd gan 36% wasanaethau parhaus erbyn y cawsant eu lleoli. Cyfran uwch na'r llynedd (25%). Bu cynnydd yn y cymorth y gwneir cais amdano ar ôl mabwysiadu a'r cymorth a rhoddwyd. Cafodd 167 neu 32% yn fwy o geisiadau newydd am gymorth ar ôl mabwysiadu eu hasesu yn ystod 2017/18, gyda 81 arall ar y gweill ar ddiwedd y flwyddyn. Arweiniodd y mwyafrif helaeth o'r asesiadau hyn at ddarparu mwy na 124 neu 74% o wasanaeth cymorth nad oedd yn ariannol, yn bennaf am gymorth therapiwtig neu ymarferol.

Rydym wedi gofyn i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu. Byddai hyn yn golygu y byddai cynlluniau cymorth mabwysiadu yn dod yn rhan o gynllun Plant sy'n Derbyn Gofal, yn parhau i fod yn weithredol ac yn cael eu hadolygu o dan y Ddeddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles newydd hyd nes nad oes angen cefnogaeth bellach. Byddai teuluoedd yn gallu parhau i ddychwelyd am gefnogaeth bellach pe byddent yn teimlo bod ei angen arnynt nes ymlaen.

Credwn y bydd hyn yn ein helpu i wella hygyrchedd gwasanaethau, ochr yn ochr â gwneud newidiadau sy'n gwella sut mae teuluoedd sy'n mabwysiadu yn derbyn cefnogaeth o'r dechrau. Dylai mentrau fel y Fframwaith Deunyddiau Taith Bywyd newydd, a'r pecyn hyfforddiant hyblyg ar ôl cael cymeradwyaeth i bobl sy'n mabwysiadu, ddarparu hyn. Rydym hefyd yn bwriadu ystyried sut i gefnogi cyswllt yn 2018/19.

Mesur 34: Nifer y darpar fabwysiadwyr a gymeradwywyd



2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
197	245	236	294	266	236	212

LLEOLI PLANT

Mae Adran 2 yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith yr ydym yn ei wneud i wella recriwtio, sy'n golygu y gallwn leoli pob plentyn yn brydlon. Rydym wedi bod yn gwella marchnata a recriwtio gan ein bod bellach yn deall ein hanghenion busnes mewn llawer mwy o fanylder. Yn 2017/18, cymeradwywyd 212 o fabwysiadwyr, sy'n llai na'r nifer yn y blynyddoedd blaenorol, ond dechreuwyd 12% yn fwy o asesiadau newydd (277).

Mae lefel y mabwysiadwyr a gymeradwywyd wedi dychwelyd i lefelau cyn cyfnod y GMC; ac efallai mai dyma'r 'norm' i Gymru, ond mae angen i hyn newid oherwydd na fydd gweithgarwch recriwtio ar y fath lefel yn diwallu ein hanghenion.

Er gwaethaf hyn, mae yna bethau cadarnhaol iawn i adrodd yn eu cylch yn nhermau lleoli plant:

- mae'r plant yr ydym yn eu lleoli ar gyfartaledd, yn cael eu lleoli yn gyflymach;
- Ymunodd 56% o blant a leolwyd â'u teulu newydd o fewn cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, sef 13 mis o'r adeg y dechreuasant 'dderbyn gofal' a 49% o fewn 6 mis o adeg y gorchymyn lleoli;
- roedd bron i draean o'r lleoliadau a wnaethom, ar gyfer plant mewn grwpiau brodyr a chwiorydd – sydd yn debyg i'r llynedd;
- mae'r paru nad yw'n mynd rhagddo neu sy'n methu cyn y gorchymyn mabwysiadu yn parhau i fod yn isel iawn ar 1%;
- mae nifer yr ymholiadau gan fabwysiadwyr wedi cynyddu 20% eleni; ac
- mae'r amser y cymerir i gymeradwyo mabwysiadwyr, ar gyfartaledd, wedi gostwng eto – ar gyfartaledd 6 mis o'r cais ffurfiol i'r cymeradwyo, 9.5 mis o ymholiad cyntaf y mabwysiadwyr.

Rydym yn cydnabod bod angen i ni gynyddu lefel yr asesiadau a ddechreuwyd a'u cwblhau i gyrraedd lefel newydd lle mae gennym ddigon o fabwysiadwyr, sy'n golygu y gallwn leihau nifer y plant sy'n aros, a'r amser y maent yn aros. Credwn yn y tymor byr fod angen i Gymru bron i ddyblu nifer y mabwysiadwyr y mae'n eu recriwtio.

Y GWAITH CREIDDIOL

Mae llawer o weithgareddau eraill y mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cymryd rhan ynddynt. Yn adran 3, rydym yn adrodd ar y gwaith yr ydym yn ei wneud i ymgysylltu â mabwysiadwyr, plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu, a'n gwaith datblygu a gyd-gynhyrchwyd gyda hwy. Mae hefyd yn amlinellu'r gwaith sylweddol yr ydym yn ei wneud o ran y gyfraith a threfniadau polisi, sy'n sicrhau bod y cyd-destun ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu yn gweithio'n dda i'r bobl hynny sy'n derbyn gwasanaethau.

Mae gweddill yr adroddiad yn amlinellu ein cynnydd ar ddiwallu ein blaenoriaethau ar gyfer 2017/18.

EIN FFOCWS

Gweledigaeth y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer 2017/18 oedd:

- Cynyddu'r ystod o aelwydydd sy'n mabwysiadu sydd ar gael i ddiwallu anghenion y plant hynny y cytunwyd mai mabwysiadu yw'r cynllun ar eu cyfer
- Lleihau'r amser y mae pob plentyn yn aros am leoliad mabwysiadu, gan gynnwys plant ag anghenion ychwanegol, a sicrhau bod brodyr neu chwiorydd yn cael eu lleoli gyda'i gilydd
- Sicrhau bod darpar fabwysiadwyr a'r rheini sy'n cael eu cymeradwyo yn derbyn asesiad a chymorth sy'n brydlon ac o ansawdd da
- Gweithredu ein Fframwaith ar gyfer Cymorth Mabwysiadu i ddarparu mynediad gwell at gyngor, gwybodaeth a gwasanaethau penodol i bawb y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt, yn ogystal â chefnogaeth mwy arbenigol ac wedi'i dargedu'n fwy i'r rhai sydd angen cefnogaeth barhaus yn dilyn asesiad
- Cyflawni gwelliannau ym mherfformiad gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru

Y Blaenoriaethau Allweddol i greu Gwelliannau yn 2017/18 oedd:

- Parhau i wella cymorth mabwysiadu
- Lleoli plant yn effeithiol
- Gwaith creiddiol – a oedd yn cynnwys llywio'r cyd-destun cyfreithiol a pholisi, ymgynghori â chydweithredu i gynnwys ein defnyddwyr ein gwasanaeth, gwella dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol mewn gwaith parhaol a mabwysiadu, a sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu yn gweithio'n dda

BLAENORIAETH

Parhau i wella cymorth mabwysiadu

Datblygu'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu a'r Achos Busnes

Mae'r Fframwaith Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer Cymorth Mabwysiadu yn amlinellu ein huchelgeisiau am y cymorth a'r gwasanaethau y gall plant sy'n cael eu mabwysiadu, rhieni sy'n mabwysiadu ac eraill, eu disgwyl dros amser. Dyma'r cynllun gwella cymorth mabwysiadu i Gymru, yn seiliedig ar ein hymgysylltiad â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Dros amser, rydym am i'r gwasanaethau hyn fod yn hygyrch ac ar gael yn eang ymhobman, gan ddiwallu anghenion yn brydlon.

Ble ydym ni ym mis Mawrth 2018?

- Mae'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid wedi datblygu'r Fframwaith a chytuno arni.
- Mae'r rhan fwyaf o'r rhanbarthau wedi datblygu eu trefniadau lleol i ddarparu cymorth mabwysiadu, gan gynnwys darparu gwasanaethau newydd neu ychwanegol a datblygu eu staff i ddarparu ymyriadau cymorth mabwysiadu therapiwtig penodol.
- Crëwyd swydd Rheolwr Datblygu Cymorth Mabwysiadu – wedi'i ariannu gan fuddsoddiad o £50k gan Lywodraeth Cymru (LlCC) a hynny wedi'i ddiogelu hyd at 31 Mawrth 2019.
- Mae ymgysylltu â mabwysiadwyr yn parhau trwy gynllun 'Llais Mabwysiadu' embryonig i Gymru, a chyda phlant a phobl ifanc trwy ehangu prosiect 'Talk Adoption'.
- Cytunodd Llywodraeth Cymru/Cynulliad Cenedlaethol ar weithredu Adran 8 a 9 o Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol Lloegr yng Nghymru.
- Lansiodd Adoption UK (AUK) brosiect '**Y 1000 Diwrnod Cyntaf**' ym mis Hydref 2017. Ei nod yw darparu pecyn cymorth i deuluoedd sy'n mabwysiadu yn ystod y tair blynedd gyntaf, gan ddechrau pan fydd y plentyn yn cael ei leoli. Mae'n cynnig mynediad am ddim i linell gymorth; cefnogaeth leol gan gymheiriaid, gweithdai a chyrsiau hyfforddi; ffeithlenni ac adnoddau ar ystod eang o faterion sy'n ymwneud â mabwysiadu. Yn ystod y 6 mis cyntaf, mae 53 o deuluoedd wedi cofrestru'n ffurfiol ar y prosiect ac mae 25 o bobl eraill wedi cysylltu â'r llinell gymorth ynglŷn ag ef. Mae AUK wedi darparu 10 gweithdy ar draws Cymru sy'n delio â materion gwasanaethau Addysg, Cwsg a gwasanaethau Therapiwtig ac mae mwy ar y gorwel i ganolbwyntio ar faterion iechyd a datblygu, a Gwaith Taith Bywyd.
- Mae llywodraeth leol yn gweithredu polisi cenedlaethol ar lwfansau ariannol wrth fabwysiadu; mae rhanbarthau'n gweithio gyda'u hawdurdodau lleol i weithredu hyn o 1 Ebrill 2018.
- Rydym yn gweithredu fframwaith newydd **Gwaith Taith Bywyd** wrth fabwysiadu. Cyd-gynhyrchwyd hon gyda phlant, pobl ifanc a mabwysiadwyr. Mae 'Pecyn Cymorth' newydd wedi'i ddatblygu, sydd, ynghyd â'r Fframwaith a'r Canllaw Arfer Da, ar wefan www.adoptcymru.com. Cefnogwyd y gwaith hwn gan AFA Cymru; mae'r holl staff wedi derbyn cefnogaeth a hyfforddiant gan AFA Cymru a bydd hwn yn parhau. Mae buddsoddiad cylchol o £75k ar gael gan Lywodraeth Cymru i greu'r gallu i wella ac mae ar gael i ranbarthau ymwreiddio'r newidiadau wrth fynd ymlaen.
- Rydym wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac Adoption UK i wneud gwasanaethau addysg yn fwy 'ymwybodol o fabwysiadu'. Mae llawer o fabwysiadwyr yn mynegi pryderon ynghylch y ffordd y mae anghenion eu plentyn yn cael eu deall mewn ysgolion; mae AUK yn cynnig gwaith codi ymwybyddiaeth i weithwyr proffesiynol yn y maes addysg ledled Cymru. Eleni, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, cynhaliwyd 'Dosbarthiadau Meistr' ledled Cymru. Mae rhieni sy'n mabwysiadu, athrawon a gweithwyr cymdeithasol yn y maes mabwysiadu wedi dod at ei gilydd i glywed am y damcaniaethau diweddaraf yn natblygiad yr ymennydd ac effaith trawma cynnar, yn ogystal â rhannu strategaethau ar ddarparu cymorth yn yr ysgol i blant sy'n cael eu mabwysiadu. Mae banc cynhwysfawr o adnoddau wedi ei greu ac mae ar gael i athrawon ar Fewnrwyd Addysg Hwb ac Adoption UK. Mae hyn yn ategu at y ddau ganllaw a gynhyrchwyd yn y blynyddoedd blaenorol.

Canllaw i athrawon https://www.adoptionuk.org/nations/cymruwales#GettingItRight

Canllaw i rieni https://www.adoptionuk.org/nations/cymruwales #GettingItRightParents

- Rydym wedi llunio **Canllaw Cyfreithiol** sydd bellach ar gael i Fabwysiadwyr. Wedi'i datblygu gan AFA Cymru ar gyfer GMC, mae ar gael ar www.adoptcymru.com/publications ac ar wefan AFA Cymru.
- Rydym wedi parhau i weithio ar wella mynediad i CAMHS a gwasanaethau iechyd eraill sy'n cefnogi lles emosiynol. Cynhaliwyd cyfarfod cynhyrchiol rhwng arweinwyr clinigol gwasanaethau CAMHS yng Nghymru a rheolwyr o Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2017. Mae cynlluniau datblygu cyfredol CAMHS yn cynnwys ymrwymiad i wella'r cynnig i blant bregus, y mae plant sy'n derbyn gofal (megis plant sydd wedi'u mabwysiadu) yn grŵp allweddol. Gwnaed cysylltiadau cychwynnol mewn pedair o'r pum rhanbarth, er bod lle i wella'r hyn sydd ar gael i deuluoedd. Mae'r GMC wedi cael gwahoddiad i ymuno â ffrwd waith Ymyrraeth Gynnar a Chydnerthedd rhaglen 'Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc', ac ar ddechrau 2018 rhoddwyd tystiolaeth yn ymchwiliad CAMHS Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan adeiladu ar y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y GMC.

Mae'r achos busnes yn amcangyfrif y bydd y gost o weithredu'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu oddeutu £1.4m – heb gynnwys gwasanaethau unigol a dargedir a gwasanaethau arbenigol, y byddai rhai ohonynt yn cael eu darparu gan eraill, e.e. iechyd. Ar y dudalen nesaf mae rhai blaenoriaethau eraill yn yr achos busnes sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Beth	Diweddariad	Anghenion yn y dyfodol
Gwell mynediad at gyngor arbenigol a chyson ar 'fabwysiadu' a gwybodaeth am fagu plant a chael eich mabwysiadu – wedi'u darparu'n ddelfrydol gan Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol (AMG) mewn gwasanaeth o fath 'brysbennu' – gan atal cyfranogiad statudol i lawer.	• Datblygu gwefan GMC i gynnwys tudalennau Cymorth Mabwysiadu • Aelodaeth Adoption UK (AUK) i bob mabwysiadwr newydd – wedi'i ariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru (LlC) hyd at 31 Mawrth 2019 • Llinellau cyngor AUK a Chymdeithas Maethu a Mabwysiadu (AFA) – wedi'i ariannu gan LC hyd at 31 Mawrth 2019 • Cronfa ddata mabwysiadu GCM i fod yn rhan o Gofrestr Mabwysiadu newydd Cymru • Mae achos busnes yn nodi y byddai costau datblygu gwasanaeth brysbennu yn isafswm o £50k.	Datblygu'r cysyniad brysbennu a'r cynnig gwasanaeth gan gynnwys cysylltiadau â rhanbarthau a, lle bo'n briodol, gwasanaethau Awdurdod Lleol (ALl) a gwasanaethau Gwybodaeth a Chyngor (IAA) Canfod cyllid
Diweddaru hyfforddiant cyn-cymeradwyo i fabwysiadwyr a datblygu rhaglen ôl-gymeradwyo/lleoli i bawb sy'n mabwysiadu.	• Datblygu hyfforddiant ar ôl cymeradwyo i fabwysiadwyr (grant – un tro) • Cwmpasu cynnwys hyfforddiant cyn-gymeradwyo yn yr uchod • Mae rhai rhanbarthau wedi buddsoddi mewn hyfforddiant technegau therapiwtig a rheoli ymddygiad i staff a mabwysiadwyr	Canfod cyllid i ddarparu'n barhaus Cwmpas prosiect i adolygu a diweddaru hyfforddiant cyn-cymeradwyo a chanfod cyllid Cyfleoedd eraill i ychwanegu at yr amrediad o'r opsiynau sydd ar gael i'w harchwilio
Trefniadau i fabwysiadwyr, plant a phobl ifanc i gael mynediad i asesiadau cymorth newydd ar ôl mabwysiadu drwy'r gwasanaethau rhanbarthol yn ogystal â gwella goruchwyliaeth y cynlluniau cymorth presennol ar gyfer mabwysiadwyr/plant sy'n byw ym mhob ardal ranbarthol.	• Mae pedwar o'r pum gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol yn awr yn cynnig asesiadau ôl-fabwysiadu • Mae cydweithredol ranbarthol De Ddwyrain Cymru wedi datblygu model darparu gwasanaeth ar gyfer hyn ac mae ar gael i bob rhanbarth i ystyried ei gweithredu	Pumed rhanbarth i ddatblygu'i gynllun Canfod yr hyn sydd ei angen ar wasanaethau rhanbarthol i gael trosolwg gwell ar gynlluniau cymorth mabwysiadu a datblygu cynllun
Integreiddio cynlluniau cymorth mabwysiadu i gynlluniau gofal a chymorth plant (cynlluniau Rhan 6) a chadw'r cynlluniau a'r gwasanaethau hyn yn fyw ac yn egnïol cyhyd ag y bydd angen iddynt fod.	• Angen newid deddfwriaethol – cyngor gan gynnwys cyngor cyfreithiol annibynnol a ddarperir i Lywodraeth Cymru. Ceisiadau ffurfiol i wneud y newidiadau.	Parhau i geisio a gweithio gyda LlC i gyflawni hyn
Helpu asiantaethau/gwasanaethau eraill i fod yn 'ymwybodol o fabwysiadu'.	Mae cynllun addysg GMC yn adlewyrchu ac yn gweithio gyda chynllun LlC ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal • Gwasanaethau iechyd • Gwasanaethau eraill	Cyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer 18/19 yn cynnwys cytundeb diweddar gan LC i olrhain canlyniadau addysgol plant sy'n cael eu mabwysiadu Ystyried dull tebyg ar gyfer gwasanaethau eraill sy'n bartneriaid
Blwch Llythyrau a Chyswllt.	• Adroddiad blynyddol y comisiynydd plant ar farn brodyr a chwiorydd ar gyswllt/gwahanu • Mae ymateb LlC yn cynnwys gweithio gyda GMC • Cydnabod maes gwaith cynyddol	Rhannu arfer da a datblygu cynllun gwella

2

BLAENORIAETH

Lleoli Plant yn Effeithiol

Cael digon o fabwysiadwyr i ddiwallu anghenion plant sydd â chynllun mabwysiadu yw'r allwedd i leoli plant mewn modd amserol.

Rydyn ni'n lleoli plant yn gyflymach ac yn llwyddo i leoli grwpiau brodyr a chwiorydd a phlant sy'n fwy cymhleth. Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, mae nifer y plant sy'n aros wedi dechrau cynyddu eto ac ar 31 Mawrth 2018 roedd 350 o blant yng Nghymru yn destun gorchymyn lleoli ac yn aros i ddod o hyd i deulu addas. Er ein bod yn gwybod bod teuluoedd yn cael eu hystyried ar gyfer o leiaf 20% o'r plant hyn, rydym hefyd yn gwybod bod angen inni recriwtio mwy o fabwysiadwyr er mwyn i ni leihau nifer y plant sy'n aros yn gyffredinol, a'r amser y bydd unrhyw blentyn yn gorfod aros.

Y misoedd a gymerwyd ar gyfartaledd o ddyddiad y lleoliad derbyn gofal mwyaf diweddar i ddyddiad y lleoliad mabwysiadu



2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
16.5	15.0	15.8	14.6

Meincnod: 13 mis neu lai

Rydym wedi gwneud llawer o waith eleni ar ein strategaeth recriwtio, yn ogystal â datblygu gwybodaeth a data gwell i'n helpu ni i geisio rhagweld y galw am leoliadau. Mae hyn yn gwneud cynnydd da ond gwyddom y bydd angen i wasanaethau gynyddu cryn dipyn ar y recriwtio i allu lleoli'r plant sy'n aros ar hyn o bryd, yn ogystal â'r plant sy'n debygol o dderbyn gorchmynion lleoli yn 2018/19 a thu hwnt.

BETH RYDYM WEDI EI WNEUD

- Bellach mae gan bob rhanbarth ac AMG gynlluniau marchnata a recriwtio yn eu lle, ac yn ail hanner y flwyddyn hon, dechreuom ddatblygu cyrchnodau recriwtio yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r angen tebygol
- Defnyddiwyd ein grant datblygu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r rhanbarthau i ddatblygu cynlluniau marchnata, gan annog mwy o gydweithio lle'r oedd cyfle i wneud hynny. Fe wnaeth hefyd gefnogi ymgyrchoedd recriwtio cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys AMG
- Yn genedlaethol, mae ein presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol yn parhau i dyfu, ac rydym wedi gwneud gwelliannau i'r wefan genedlaethol a sut yr ydym yn ei defnyddio yn dilyn adolygiad
- Fe wnaethom gynnal ymgyrch radio lwyddiannus ar ddiwedd y flwyddyn a gafodd effaith gadarnhaol ar ymholiadau
- Rydym wedi gweithio gyda'n 'Hyrwyddwyr Mabwysiadu' i lywio cynnwys ein deunydd marchnata ac mae nifer o hyrwyddwyr wedi darparu straeon ar gyfer hyn.
- Mae partneriaid ein AMG wedi cydweithio i ddatblygu prosiect recriwtio arbenigol 'Mabwysiadu Gyda'n Gilydd' ar gyfer y plant sy'n aros hiraf
- Byddwn yn parhau i ddefnyddio dadansoddiadau gwe a marchnata digidol i wella ein marchnata ymhellach yn genedlaethol a rhanbarthol

Nifer yr Ymholiadau Cychwynnol



Amser a gymerir (misoedd) ar gyfartaledd i Fabwysiadwyr symud o'r ymholiad cychwynnol i benderfyniad asiantaeth i'w cymeradwyo



Meincnod: 8 mis neu lai

HERIAU

Mae llawer o heriau yn ein hwynebu, yn enwedig sicrhau bod sgiliau ac adnoddau marchnata ar gael ar draws yr hyn sy'n ei hanfod yn wasanaeth gwaith cymdeithasol, ac mae defnyddio data i ragfynegi'r galw mewn amgylchedd lle mae llawer o ffactorau (ee niferoedd y gorchmynion lleoliadau a wnaed) y tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth. Mae cynllunio i sicrhau bod yna ddigon o fabwysiadwyr yn newydd i ranbarthau ac asiantaethau'r GMC, ac rydym yn datblygu'r set ddata ochr yn ochr â mynd i'r afael â'r bwlch sy'n ail-ymddangos.

Nid yw marchnata yn rhywbeth y mae pob gwasanaeth wedi buddsoddi ynddo hyd yma ac mae'r tîm canolog yn colli ei gymorth marchnata rhan amser ar ddiwedd Mehefin.

Fodd bynnag, mae'r gwaith yr ydym wedi ei wneud ar farchnata hyd yma wedi arwain at gynnydd yn nifer yr ymholiadau. Atebir y rhain yn brydlon, a gwelwyd hefyd welliannau yn y ffrâm amser ar gyfartaledd i gymeradwyo mabwysiadwyr, a chychwynnwyd mwy o asesiadau y llynedd nag y gwnaed yn y flwyddyn flaenorol.

Felly, mae gennym sylfaen dda ar gyfer y cynlluniau i fynd i'r afael â hyn yn genedlaethol a rhanbarthol dros y flwyddyn i ddod, lle'r ydym yn anelu i gynnal lefel dda o ymholiadau a dechrau cynyddu'r recriwtio eto.

Ein cynllun yw comisiynu cymorth marchnata arbenigol, a monitro gweithrediad cynlluniau marchnata gan gynnwys gwneud defnydd gwell o ddadansoddiadau, cydlynu'n ein marchnata digidol a chyfryngau cymdeithasol yn well a gweithio gyda'n Hyrwyddwyr Mabwysiadu i ddatblygu ein hymgyrch #SeeTheWholeChild ymhellach.

adopting together

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gweld Mabwysiadu Gyda'n Gilydd yn cael ei gyflwyno, sef prosiect cydweithredol a gefnogir gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, mewn partneriaeth â'r sector statudol a gyflwynir gan yr Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r prosiect wedi dod i'r amlwg at ddiben cyffredin a diffinnir yn glir, i sicrhau parhad i blant sy'n aros yn hirach am deulu; cafod ei ddatblygu yn ystod 2017/18.

Dan arweiniad Cymdeithas Blant Dewi Sant, mae Mabwysiadu Gyda'n Gilydd yn dwyn ynghyd gwybodaeth ddamcaniaethol a modelau arfer da sydd wedi cael eu datblygu ledled y DU i greu un model penodol gyda phedair elfen sy'n cydgysylltu i Gymru:

- trawsnewidiadau effeithiol gan ddefnyddio chwarae therapiwtig strwythuredig;
- dull ymyriadau cynnar sy'n cefnogi'r prif berthynas rhwng y gofalwr – plentyn;
- Cyfarfodydd Tîm ar gyfer y Plentyn cyn paru sy'n dwyn ynghyd gwybodaeth gan y rheini sy'n adnabod y plentyn orau;
- recriwtio, asesu a hyfforddiant penodol i fabwysiadwyr gan Gymdeithas Plant Dewi Sant a Barnardos, gan gynnwys recriwtio penodol i blant mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a thimau canfod teuluoedd rhanbarthol.

Cofrestr Fabwysiadu Cymru
Wales Adoption Register

DIWRNODAU CYFNEWID A DIWRNODAU GWEITHGAREDDAU

Mae Cofrestr Mabwysiadu Cymru yn parhau i weithio'n greadigol i ddod o hyd i deuluoedd i blant sy'n aros i gael eu mabwysiadu. Yn 2017/18, fe wnaethom gynnal Diwrnod Gweithgaredd Mabwysiadu (DGM) a Diwrnodau Cyfnewid yn Ne a Gogledd Cymru yn ôl eu trefn.

Mae'r Diwrnodau Gweithgareddau Mabwysiadu yn gyfle i ddarpar fabwysiadwyr gwrdd ag ystod o blant sy'n aros i gael eu mabwysiadu. Yn yr ystyr hwnnw, mae DGM yn cael eu harwain gan blant a mabwysiadwyr, sydd felly yn eu galluogi i gymryd rhan yn y camau i ganfod teuluoedd. Yn wahanol i fecanweithiau mwy traddodiadol o ganfod teuluoedd, mae DGM yn rhoi cyfle i blant a mabwysiadwyr gysylltu'n emosiynol ac ymateb yn uniongyrchol i'w gilydd trwy weithgareddau difyr a phleserus mewn lleoliad diogel a chefnogol. Yn bwysicaf oll, mae hwn yn gyfle i blant gael eu gweld fel plant yn gyntaf.

- Roedd ein DGM cyntaf ym mis Mawrth 2017 yn llwyddiant ysgubol gydag adborth cadarnhaol iawn gan y mabwysiadwyr, gweithwyr cymdeithasol, plant a gofalwyr maeth a fynychodd. O ganlyniad, daethpwyd o hyd i deuluoedd i 6 o blant – 1 o bob 4 o blant a fynychodd. Dywedodd un bachgen bach sydd wedi cael ei leoli ers hynny ei fod yn teimlo ei fod wedi dewis ei deulu ar y diwrnod, ac mae'n rhan helaeth o'i stori taith bywyd!
- Roedd ein hail DGM ym mis Mawrth 2018 yn fwy o lwyddiant fyth a llwyddwyd i gael hyd i deuluoedd i 40% o'r plant a fynychodd -14 o blant allan o 35 a disgwyliwn y bydd o leiaf 4 pellach. Mae'r mwyafrif o'r lleoliadau hyn ar gyfer plant sydd wedi bod ar Gofrestr Mabwysiadu Cymru am fwy na 6 mis ac maent yn cynnwys 5 grŵp o frodyr neu chwiorydd.
- Fe wnaethom gynnal Diwrnod Cyfnewid ym Medi 2017 yng Ngogledd Cymru. Daethpwyd o hyd i deuluoedd i 10 o blant yn ystod y digwyddiad hwn yn cynnwys grŵp o dri brawd neu chwaer.

Mewn adborth i'r Gofrestr, mae'r mwyafrif o fabwysiadwyr yn mynegi pwysigrwydd cyfleoedd sy'n cael eu harwain gan fabwysiadwyr a faint maent yn ei ddysgu am y plant sy'n aros trwy fynychu digwyddiadau o'r fath. Mynegodd llawer ddiddordeb, ac wedyn daethpwyd o hyd i blant ar eu cyfer na fyddent fel arall wedi eu hystyried neu wedi eu cysylltu â hwy, gan gynnwys plant hŷn a grwpiau mawr o frodyr neu chwiorydd.

Mae'r digwyddiadau hyn, ynghyd â chyfarfodydd ymarferwyr a chyfarfodydd AMG i'r Gofrestr, yn ffurfio mwyafrif y paru llwyddiannus a wnaed gan y Gofrestr yn 2017/18 (28 allan o 38). Bydd y niferoedd hyn o'r DGM ym Mawrth 2018 yn cael eu cyfrif yn 2018/19 ar ôl iddynt gael eu datblygu.

PARU A LLEOLI PLANT

Rydym yn gwneud gwaith arall i wella'r trefniadau i leoli plant.

- Gwyddom fod mabwysiadwyr yn gwerthfawrogi mewnbwn Cynghorwyr Meddygol yn fawr iawn cyn i'w plentyn gael ei leoli gyda nhw. Fodd bynnag, roedd Cynghorwyr Meddygol yn ymwybodol o lwybrau hysbysu gwael pan fydd plant yn cael eu lleoli i gael eu mabwysiadu gyda'u teuluoedd a phan gymeradwyir gorchmynion mabwysiadu. Fe wnaethant gynnal adolygiad i gael dealltwriaeth well o'r gwelliannau y byddai modd eu gwneud. Roedd yna wahanol faterion ledled Cymru sydd bellach yn cael eu hystyried drwy'r byrddau rheoli rhanbarthol.
- Rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i uwchraddio'r gronfa ddata sy'n cefnogi Cofrestr Mabwysiadu Cymru a hwyluso cronfa ddata mabwysiadu. Cafodd hyn ei ohirio, ond ym mis Chwefror penderfynwyd ei symud ymlaen unwaith eto. Bydd Cyngor Caerdydd, fel yr awdurdod sy'n cynnal tîm canolog y GMC, yn caffael y gronfa ddata newydd. Rhagwelir y bydd y gofrestr yn mynd yn fyw yn ystod 2018. Mae cynllun prosiect ar waith a sefydlwyd Grŵp Llywio i lywio a gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen wrth ymarfer.

GWAITH CREIDDIOL

DATBLYGU EIN FFRAMWAITH PERFFORMIAD

Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP) y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn fanwl, ond erbyn hyn mae'n darparu cyd-destun hanfodol a dealltwriaeth o ran darparu gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru. Mae'r gwaith a wnaethom ar ddata i gefnogi'r strategaeth recriwtio eleni yn dangos gwerth hyn ac rydym yn dechrau datblygu data a gwybodaeth ychwanegol i ddiwallu ein hanghenion.

Mae'r GMC yn gweithio'n barhaus i wella systemau casglu a dilysu data yn rhanbarthol a chenedlaethol. I'r perwyl hwn, cwblhawyd adolygiad o'r FfRhP eleni, gan gynnwys archwiliad o unrhyw anghysonderau yn ansawdd y data, gyda llygad i'r dyfodol. Roeddem wedi gobeithio y byddai System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn cael ei gweithredu'n ddigonol fel potensial newydd yn ei le ac rydym wedi bod yn gweithio gyda WCCIS i ddatblygu'r modiwlau perthnasol, ond yn realistig mae hyn yn edrych yn annhebygol. Canfu ein hadolygiad fod dibyniaeth ar awdurdodau lleol am ddata cywir ac amserol yn ffactor, fel yr oedd ansawdd a seilwaith systemau data rhanbarthol; nid yw perchnogaeth ar ddiwylliant perfformiad wedi ei ymwreiddio'n gyffredinol eto ar draws GMC.

Comisiynwyd Practice Solutions i ddarparu asesiad cychwynnol o'r ffordd y mae'r Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol yn defnyddio, prosesu, storio a lledaenu gwybodaeth. Rydym am ddefnyddio'r cyfle i adnewyddu ein system i wella a chyfnerthu'r ffordd yr ydym yn rheoli gwybodaeth, felly'n cynyddu ein gallu dadansoddol yn y tymor byr a llywio'r sefyllfa yn y tymor hirach. Rydym hefyd am integreiddio galluoedd data Cofrestr Mabwysiadu Cymru sy'n newydd er mwyn lleihau dyblygu ac osgoi baich diangen.

PARHAU I GYD-GYNHYRCHU I YMGYSYLLTU Â DEFNYDDWYR AC INTEGREIDDIO BARN DEFNYDDWYR Y GWASANAETH YN EIN DULLIAU LLYWODRAETHU

Rydym wedi parhau i gyd-gynhyrchu i ymgysylltu â mabwysiadwyr, plant a phobl ifanc sy'n cael eu mabwysiadu. Cynhaliwyd digwyddiadau ledled Cymru yn ôl rhanbarthau ac AMG trwy grwpiau cymorth a grwpiau ffocws, yn ogystal ag ar gyfer Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu fis Hydref diwethaf.

Yn ystod Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu 2017, cynhaliwyd digwyddiad teuluol yn Techniquest, pan gafwyd cwmni'r diweddar Carl Sargeant, Ysgrifennydd y Cabinet.

Roedd hwn yn ddigwyddiad difyr i'r teuluoedd a ddaeth o bob cwr o Gymru a lansiwyd hefyd fenter **Hyrwyddwyr Mabwysiadu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**.

Fe wnaethom apelio at fabwysiadwyr presennol ledled Cymru i ddod yn hyrwyddwyr mabwysiadu ac fe gawsom ymateb ardderchog.

Mae'r GMC yn credu mai'r bobl sydd wedi mabwysiadu yw'r bobl gorau i adrodd hanes mabwysiadu am fod mabwysiadu bellach yn realiti iddynt. Dylai pobl nad ydynt efallai wedi ystyried mabwysiadu, neu'r rheini sydd efallai'n ystyried mabwysiadu ond yn teimlo'n ansicr, glywed yr hanesion hyn a theimlo, gyda chymorth y gallai hyn ategu at eu teulu hefyd.

Mae gan yr Hyrwyddwyr Mabwysiadu rôl bwysig i hyrwyddo barn bositif a realistig o fabwysiadu trwy rannu sut y mae'n newid eu bywydau mewn ffordd gadarnhaol, y gwahaniaeth a wnaed i fywydau plant y maen nhw wedi'u mabwysiadu, ac annog a grymuso eraill i ystyried mabwysiadu â meddwl agored.

Lansiwyd y fenter yn ystod Wythnos Genedlaethol Maethu 2017, ac edrychwn ymlaen at ei ddatblygu ymhellach drwy gynnwys yr Hyrwyddwyr mewn mentrau yn y dyfodol a'u cysylltu â gwasanaethau rhanbarthol fel y gallant gefnogi grwpiau a gweithgareddau lleol.

Yn ystod 2017/18, fe wnaethom hefyd ddechrau ymwreiddio ffyrdd parhaus oedd yn fwy strwythuredig a systematig i ymgysylltu â mabwysiadwyr, plant a phobl ifanc, yn ogystal â pharhau i gyd-gynhyrchu prosiectau fel datblygu fframwaith Gwaith Taith Bywyd.

Mae '**Adopter Voice**' yn fenter a ddatblygwyd gan Adoption UK yng Nghymru gyda chefnogaeth GMC. Mae'n adlewyrchu cynllun tebyg yn Lloegr a dechreuodd yng Nghymru yn ail hanner 2017/18, gan barhau eleni. Casglwyd gwybodaeth o bob cwr o Gymru gan Adoption UK drwy fynychu cyfarfodydd grwpiau cymorth ac arolwg byr ar-lein. Ymwelwyd ag 8 grŵp cymorth, o leiaf 1 ymhob rhanbarth, lle defnyddiwyd cyfres o gwestiynau safonol i greu trafodaeth ynghylch cryfderau a gwendidau yn y system mabwysiadu ar hyn o bryd yng Nghymru. Y teimlad yn gyffredinol oedd bod y camau recriwtio ac asesu yn y daith mabwysiadu yn effeithiol yn bennaf ond bod y profiad ar ôl y gorchymyn mabwysiadu yn fwy amrywiol. Amlygwyd mai cymorth mabwysiadu, yn cynnwys gwasanaethau arbenigol oedd y maes a greai'r pryder mwyaf, ochr yn ochr â'r angen i wella cyfathrebu ynghylch y cymorth sydd ar gael yn lleol.

Mae '**Talk Adoption**' yn wasanaeth cymorth cenedlaethol (ledled y DU) dan ofal After Adoption i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu. Mae'n annog plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu i feithrin perthnasau a dysgu sgiliau newydd i roi hwb i'w hyder.

Mae Talk Adoption Wales yn cynnig grwpiau misol i blant a phobl ifanc 7-10 oed ac 11-25 oed. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn cynnig dau grŵp (1 ar gyfer pob grŵp oedran) yng Nghaerdydd ac Abertawe, a diwrnodau teulu ddwywaith y flwyddyn i aelodau'r teulu i gyd. Mae'r grwpiau yn cynnig lle diogel a chefnogol i gwrdd, cael hwyl ac archwilio materion sydd o bwys i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu. I rhannau helaeth, mae'r grwpiau'n cael eu harwain gan y plant a'r bobl ifanc, eu syniadau, eu teimladau, eu llais.

Mae Talk Adoption Wales yn hyrwyddo llais plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu trwy annog aelodau'r grŵp i fynychu/siarad mewn digwyddiadau mabwysiadu, fel y rhai sy'n cael eu rhedeg

gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru, timau mabwysiadu Awdurdodau Lleol ac asiantaethau mabwysiadu eraill.

Yn wir, yng Nghymru, siaradodd pobl ifanc o Talk Adoption yn lansiad y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn y Senedd ym mis Tachwedd 2014 ac ar yr un pryd cynhyrchu DVD i dynnu sylw at rai o'r materion sy'n bwysig iddynt hwy. Mae hwn yn gyfle pwysig i bobl sydd wedi cael eu mabwysiadu i leisio'u barn i'r gymuned ehangach, i weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â mabwysiadu, eu cyfoedion, ac eraill, e.e. athrawon, gwleidyddion ac uwch swyddogion. Mae'n agored i bawb sy'n dymuno cymryd rhan, ond nid yw'n rhan o'r sesiynau misol.

Mae cynnal y cysylltiad â Talk Adoption Wales wedi bod yn flaenoriaeth i'r GMC ac elfen graidd o gynllun y GMC i ymgysylltu â'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau mabwysiadu.

Mae'r **grwpiau cymorth** i blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd ac Abertawe wedi parhau, gyda'r ddau grŵp erbyn hyn yn orlawn gyda mwy o bobl na lleoedd sydd ar gael. Mae trafodaethau archwiliol ynghylch ehangu'r gwasanaeth yng Nghymru, gan gynnwys grŵp yng Ngogledd Cymru, wedi bod yn barhaus ond wedi eu rhwystro gan ddiffyg adnoddau. Mae After Adoption wedi bod yn ystyried ail-siapio ei wasanaeth yng Nghymru i ganolbwyntio ar grwpiau cymorth i blant a phobl ifanc.

Mae Talk Adoption wedi bod yn rhan o brosiect **Gwaith Taith Bywyd** yn ogystal â sesiynau i ddatblygu DVD hyfforddi a llyfr sampl 'Taith Bywyd' yn amlinellu'r hyn y maent yn ei feddwl y mae angen iddo ei gynnwys a sut y dylid ymgymryd â'r gwaith hwn.

Mae **cylchlythyr drafft** wedi'i ddatblygu hefyd. Trafododd y grwpiau gynnwys tudalen we/ap pellach (ar gyfer Talk Adoption a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol), a fyddai â'r un math o gynnwys â'r cylchlythyr, ond gyda chyfweliadau fideo ychwanegol, cyfweliadau clywedol, dolenni i wefannau eraill, a chysylltiadau â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol perthnasol.

LLYWIO'R CYD-DESTUN O RAN CYFRAITH A PHOLISI GAN HYRWYDDO NEWID LLE BO ANGEN

Mae'r GMC wedi parhau i eirioli dros wasanaethau gwell ar ran y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau mabwysiadu i Lywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill.

Mae'r GMC yn aelod o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant, lle mae'r gwelliannau mewn cymorth mabwysiadu yn cael eu monitro fel rhan o ffrwd waith ehangach ar Gynllunio Parhaol a Meithrin Lleoliadau Sefydlog. Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r GMC wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp o ran datblygu a gweithredu'r Fframwaith ar gyfer Cymorth Mabwysiadu, a chyflwynodd gyflwyniad ar y rhaglen wella 'Deunyddiau Taith Bywyd' i blant sydd wedi cael eu mabwysiadu neu'n mynd i gael eu mabwysiadu.

Rhoddodd y GMC dystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Iechyd Emosiynol a Meddyliol Plant a Phobl Ifanc, ac wedi hynny rhoddodd y Cyfarwyddwr dystiolaeth yn bersonol gyda chydweithwyr o grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad dilynol 'Mind over Matter' yn ddiweddar ac mae'n cyfeirio'n benodol at faterion ac argymhellion ar gyfer dyfodol gwasanaethau i gynorthwyo lles emosiynol plant sy'n cael eu mabwysiadu.

Cydweithiodd y GMC hefyd gyda grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n edrych ar wasanaethau cyhoeddus i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Ysgrifennodd Cadeirydd Annibynnol Grŵp Ymgynghorol y GMC hefyd at gadeirydd y pwyllgor.

Mae'r GMC yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn gyda'r Gweinidog dros Blant i drafod adroddiadau Blynyddol a Chanol Blwyddyn y GMC.

Mae'r GMC wedi bod yn ymwneud ag adolygiad Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau mabwysiadu a ysgogwyd gan weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2017. Ochr yn ochr â hyn, mae'r GMC wedi gwneud cais ffurfiol i Lywodraeth Cymru wneud newidiadau i'r rheoliadau ar gyfer asesu mabwysiadwyr, ac ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu. Mae galw am y newidiadau hyn i hwyluso'r gwelliannau y mae'r GMC am eu gweld ar waith.

Mae'r GMC hefyd wedi ymgysylltu â datblygiad trefniadau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol trwy fynychu gweithdai a chwrdd â swyddogion.

Mae'r GMC wedi gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru wrth iddynt ddatblygu methodoleg ddiwygiedig ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru. Arolygwyd un o'r rhanbarthau, Bae'r Gorllewin, fel cynllun peilot, ochr yn ochr ag archwilio'r swyddogaethau cenedlaethol rhwng Ionawr a Mawrth 2017. Mae adborth cynnar i'r ddau yn gadarnhaol a disgwylir i'r ddau adroddiad gael eu cyhoeddi. Bydd gweddill y rhanbarthau yn cael eu harolygu yn ystod 2018/20 gyda'r AMG tuag at ddiwedd y rhaglen.

ANNOG DATBLYGU DEALLTWRIAETH PROFFESIYNOL GWELL A SGILIAU'N YMWNEUD Â SEFYDLOGRWYDD A MABWYSIADU AR DRAWS Y GWEITHLU

Mae nifer o'n mentrau'n effeithio ar y gweithlu o fewn y gwasanaethau rhanbarthol a'r awdurdodau lleol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys ein gwaith marchnata a recriwtio, y deunyddiau teithiau bywyd newydd i blant sy'n cael eu mabwysiadu neu a fydd yn cael eu mabwysiadu, a hyfforddiant mewn technegau therapiwtig penodol, sydd ar gael i staff a mabwysiadwyr yn y rhanbarthau.

Mae ein cymorth grant gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi'r GMA i gontractio gydag AFA Cymru ac Adoption UK, sy'n ein galluogi i ddatblygu modiwlau hyfforddiant ôl-gymeradwyo ar gyfer mabwysiadwyr yn seiliedig ar adborth. Ein nod yw sicrhau bod y rhain ar gael yn ystod 2018/19 a hynny mewn amrywiaeth o ffyrdd i weddu i arddulliau dysgu gwahanol.

Mae gwybodaeth genedlaethol a rhanbarthol, gyda chefnogaeth ymchwil, yn dangos yn gyson fod angen cefnogaeth yn ystod blwyddyn gyntaf y lleoliad a thu hwnt. Ein gweledigaeth yw y bydd gan fabwysiadwyr fynediad at hyfforddiant/datblygiad mwy manwl a phenodol ar unrhyw adeg ar ôl i'r plentyn gael ei leoli neu ei fabwysiadu'n ffurfiol. Mae hwn yn rhan allweddol o'r Fframwaith ar gyfer y Cymorth Mabwysiadu yr ydym wedi'i ddatblygu, ac mae'n cydnabod bod gan fabwysiadu oblygiadau gydol oes i bawb sy'n gysylltiedig ag ef.

SICRHAU BOD EIN TREFNIADAU LLYWODRAETHU YN GWEITHIO'N DDA

Mae'r GMC wedi bodoli ers tair blynedd ac mae adolygiad wedi'i gomisiynu, gan ddefnyddio Sefydliad Gofal Cyhoeddus, i sicrhau bod trefniadau llywodraethu, rheoli a gweithredol y GMC yn 'addas i'r pwrpas', gan ei alluogi i gyflawni ei rôl a'i bwrpas yn llwyddiannus. Dechreuodd yr adolygiad yn chwarter olaf 2017/18 a bydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2018/19.

Cynhaliwyd adolygiadau o'r trefniadau cydweithredol ar gyfer Gogledd Cymru a'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd hefyd yn ystod 2017/18.

EICH ADBORTH

Mae gwasanaethau mabwysiadu rhanbarthol yn cofnodi canmoliaeth a chwynion a dderbyniwyd yn y gwasanaeth. Efallai y bydd rhywfaint o ddiffyg adrodd ynghylch y ddau, yn enwedig y rhai y mae awdurdodau lleol unigol yn eu derbyn ac yn mynd i'r afael â hwy.

Ledled Cymru yn ystod 2017/18, cafodd 14 o gwynion ac 17 achos o ganmoliaeth eu cofnodi'n benodol. Nid oes unrhyw themâu cenedlaethol yn deillio o'r cwynion na'r canmoliaethau; mae dau ranbarth wedi nodi eu bod wedi derbyn mwy nag un cwyn am elfen debyg o'r gwasanaeth ac maent wedi cymryd camau priodol.

CYLLID

Mae elfennau llywodraeth leol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cael eu hariannu yn yr un modd â phob un o'r gwasanaethau awdurdod lleol eraill yng Nghymru.

Mae'r tîm canolog yn derbyn dyraniad o'r grant cynnal trethi a oedd yn £311,000 yn 2017/18 ac fe'i defnyddir ar gyfer y tîm bach, llywodraethu a datblygu/gwella. Ariennir Cofrestr Mabwysiadu Cymru, a reolir gan y tîm canolog, trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yn elusennau annibynnol ond hefyd maent yn derbyn arian gan grant Trydydd Sector Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllid hwn yn darparu ychydig dros £300,000 o gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu.

Grant Datblygu Cymorth Mabwysiadu Llywodraeth Cymru ac Adnoddau Ychwanegol

Rhoddodd Llywodraeth Cymru grant datblygu o £90,000 ac adnoddau blynyddol ychwanegol rheolaidd o £125,000, sydd ar gael hyd at 31 Mawrth 2019, yn erbyn achos busnes sy'n canolbwyntio ar weithredu'r 'Fframwaith Cymorth Mabwysiadu' yn barhaus, gyda recriwtio cefnogol.

Cymorth Mabwysiadu	Fframwaith deunyddiau Taith Bywyd	Hyfforddiant i Fabwysiadwyr	Recriwtio
Recriwtio i swydd Rheolwr Datblygu Cymorth Mabwysiadu gan gynnwys costau cyfalaf i greu'r swydd Cefnogaeth barhaus i ddatblygu'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu	Parhau i ddatblygu a gweithredu Pecyn Cymorth Hanes Bywyd a Chanllaw Arfer Da Dyraniad i bob rhanbarth am gostau ychwanegol ymgymryd â'r gwaith hwn gyda phlant sy'n cael eu mabwysiadu Datblygu adran aelodau ar www.adoptcymru.com Datblygu pecynnau cymorth ychwanegol ar gyfer rhanddeiliaid eraill Cyd-gynhyrchu gyda mabwysiadwyr a phlant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu	Datblygu modiwlau hyfforddi ar ôl cymeradwyo Ehangu'r prosiect i gynnwys adolygiad o'r pecyn cyn-cymeradwyo cyfredol	Cynnal ymgyrch radio genedlaethol am un fis Gwasanaethau cysylltiadau cyhoeddus a chyfryngau cymdeithasol arbenigol cenedlaethol a rhanbarthol gan gynnwys datblygu cynlluniau marchnata ac ymgyrchoedd recriwtio Adolygu gwefan www.adoptcymru.com Diwrnod i'r teulu a gweithgaredd hyrwyddo yn ystod Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu

BLAENORIAETHAU AR GYFER 2018/19

LLEOLI PLANT YN EFFEITHIOL

Bydd hyn yn cynnwys:

- Sicrhau y bydd y recriwtio'n canolbwyntio ar anghenion plant sy'n debygol o gael eu mabwysiadu
- Gweithredu cofrestr Mabwysiadu Newydd Cymru a chronfa ddata o fabwysiadwyr

PARHAU I WELLA CYMORTH MABWYSIADU

Bydd hyn yn cynnwys:

- Cytuno ar y blaenoriaethau nesaf a chanfod cyllid
- Parhau â'r pethau sydd eisoes yn helpu ee gwella'r gwaith ar Daith bywyd, gwella 'ymwybyddiaeth o fabwysiadu' mewn ysgolion, ceisio newid y gyfraith o ran cymorth mabwysiadu, gwella hyfforddiant a datblygiad i fabwysiadwyr, dulliau cyson ledled Cymru

BYDD MEDDWL YMLAEN YN HANFODOL I GYFLAWNI'R RHAIN

- Cyd-gynhyrchu parhaus ac ymgysylltu â'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau mabwysiadu
- Meddwl ymlaen am y math o wasanaeth mabwysiadu rydym eu heisiau ar gyfer y dyfodol
- Gweithio i wella fframwaith cyfreithiol, polisïau a thystiolaeth sy'n effeithio ar fabwysiadu
- Annog datblygu gwell dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol

Crëwyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i wella gwasanaethau i bawb yng Nghymru y mae mabwysiadu'n effeithio arnynt.

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2014 yn fenter arloesol ar y cyd ar gyfer cynnig gwasanaethau mabwysiadu. Daeth â gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol Cymru ynghyd i greu strwythur 3 haen sy'n cynnwys partneriaethau ar bob lefel gydag Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol Cymru, Gwasanaethau Iechyd ac Addysg ymhlith rhai eraill.

Ar lefel awdurdod lleol, mae'r holl gynghorau Cymreig yn dal i ddarparu gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal gan adnabod a gweithio gyda'r plant y mae cynllun mabwysiadu yn addas iddynt.

Yn rhanbarthol, mae'r holl awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd o fewn pum cydweithrediad rhanbarthol i gynnig ystod o wasanaethau mabwysiadu. Mae gan bob cydweithrediad rhanbarthol gysylltiadau ag asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol, iechyd ac addysg. Mae'r gwasanaethau a gynigir yn amrywio mewn pob cydweithrediad, ond maent oll yn cynnig swyddogaethau asiantaeth mabwysiadu i blant, recriwtio ac asesu mabwysiadwyr, cynnig cwnsela i rieni genedigol a chyngor i oedolion a fabwysiadwyd. Ar hyn o bryd, mae rhai ohonynt yn cynnig gwasanaethau cymorth mabwysiadu'n uniongyrchol, ond mae hyn yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol mewn mannau eraill.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Tîm Canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
c/o Cyngor Dinas Caerdydd
Ystafell 409 Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd CF10 4UW

F: 029 2087 3927
E: contact@adoptcymru.com
www.adoptcymru.com